

# Ydych chi'n hoffi llysiau?

# Ydych chi'n hoffi cerddoriaeth?

# Wel, darllenwch ymlaen …

Ydych chi'n nabod rhywun sy'n siarad â'r blodau sy'n tyfu yn yr ardd? … Ydych chi erioed wedi gweld rhywun yn rhoi cwtsh i goeden? …Ydych chi wedi gweld rhywun yn rhoi *massage* i ddail bresych … neu beth am rywun yn canu i'r ciwcymbr?

Credwch neu beidio, mae rhai pobl yn meddwl bod y gweithgareddau uchod yn helpu planhigion i dyfu!

**Beth yw anghenion planhigion?**
Mae pawb yn gwybod bod rhai pethau'n hanfodol os yw planhigion yn mynd i dyfu'n gryf ac yn iach. Mae angen golau, gwres, dŵr, aer a mwynau yn y pridd, er enghraifft.

Wnaiff hedyn ddim egino os nad yw'n cael dŵr a gwres addas a bydd planhigyn sydd ddim yn cael dŵr yn marw. Er mwyn i ddail gwyrdd fedru gwneud bwyd i'r planhigyn, drwy broses o'r enw ffotosynthesis, rhaid cael carbon deuocsid o'r aer, golau'r haul a dŵr.

Mae rhai pethau'n hanfodol, felly, ond ydy cerddoriaeth yn un o'r pethau yma?

**Cerddoriaeth a phlanhigion**
Yn 2011, rhyddhaodd y Gerddorfa Philharmonig Frenhinol (The Royal Philhamronic Orchestra) albym arbennig o gerddoriaeth glasurol i helpu planhigion i dyfu. Enw'r gwaith yw *The Flora Seasons*: *Music to grow to*. Yn ogystal â rhyddhau'r albwm, chwaraeodd y gerddorfa mewn cyngerdd i gynulleidfa arbennig iawn - cynulleidfa o blanhigion.

Yn ôl arweinydd y gerddorfa, Benjamin Pope, "Rydyn ni wedi chwarae mewn ambell gyngerdd 'gwahanol' cyn hyn, ond dyma'r un mwyaf rhyfedd. Y gynulleidfa yma oedd yr un fwyaf sawrus erioed … gobeithio y bydd y gerddoriaeth glasurol yn gwneud iddyn nhw dyfu yn ystod misoedd y gwanwyn."

**Ymchwil**
Ydy cerddoriaeth yn helpu planhigion i dyfu? Dyma gwestiwn mae llawer o bobl wedi bod yn ei ofyn ar hyd y blynyddoedd.

Yn 1973, cyhoeddodd dynes o'r enw Dorothy Retallack yn Unol Daleithiau America lyfr o'r enw *The Sound of Music and Plants*. Yn y llyfr, mae hi'n sôn am nifer o arbrofion a gynhaliodd er mwyn gweld beth oedd effaith cerddoriaeth ar blanhigion.

Mewn un arbrawf, rhoddodd blanhigion mewn siambrau gwahanol (mathau o focsys tryloyw ar gyfer gwneud arbrofion gwyddonol). Chwaraeodd sain y nodyn F yn barhaus am wyth awr bob dydd i'r planhigion yn un o'r siambrau. Chwaraeodd yr un nodyn bob hyn a hyn am gyfnod o dair awr i'r planhigion yn yr ail siambr a chwaraeodd hi ddim byd i'r planhigion yn y drydedd siambr - roedd y planhigion yna mewn tawelwch llwyr.

Beth oedd y canlyniadau? Bu farw'r planhigion yn y siambr gyntaf, lle roedd y dôn barhaus, o fewn 14 diwrnod. Roedd y planhigion yn yr ail siambr yn tyfu'n gryf. Roedd y planhigion yn y drydedd siambr yn tyfu'n eithaf cryf, ond ddim mor gryf â'r rhai yn yr ail siambr. Roedd hyn yn awgrymu bod planhigion yn tyfu'n well os oedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae bob hyn a hyn.

Mewn arbrawf arall, penderfynodd Mrs Retallack chwarae gwahanol fathau o gerddoriaeth i blanhigion. Rhoddodd radio a phlanhigion mewn dwy siambr. Chwaraeodd gerddoriaeth roc yn un o'r siambrau a cherddoriaeth dawelach, fwy swynol yn y siambr arall. Gwnaeth hyn am gyfnod o dair awr bob dydd. Ar y pumed diwrnod, edrychodd ar y planhigion a gwelodd fod y rhai oedd yn y siambr lle roedd y gerddoriaeth swynol yn tyfu'n iach a'u bod yn dechrau plygu tuag at y radio. Doedd y tyfiant ddim cystal yn y siambr lle roedd y gerddoriaeth roc. Erbyn yr unfed diwrnod ar bymtheg, roedd y planhigion lle roedd y gerddoriaeth swynol i gyd yn tyfu'n gryf, ond roedd y lleill wedi marw.

**Beth ydych chi'n ei feddwl?**
Beth yw'ch casgliadau chi ar ôl darllen hyn? Ydy cerddoriaeth yn helpu planhigion i dyfu? Beth am drio arbrawf tebyg eich hunain i weld beth yw'ch canlyniadau chi?